Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Briff polisi
Rhagfyr 2020

# Ymyriadau ym maes cam-drin domestig yng Nghymru

## Effaith pandemig y Coronafeirws

Comisiynwyd a chwblhawyd y gwaith hwn cyn dyfodiad pandemig y Coronafeirws, ond o ystyried y dystiolaeth o gam-drin domestig cynyddol yn ystod y cyfnod clo, mae'n amlwg bod mynd i'r afael â VAWDASV yn llwyddiannus mor bwysig ag erioed.

## Asesu cefnogaeth i oroeswyr

Yn 2015, pasiodd Cymru y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Gwnaeth y ddeddfwriaeth nifer o newidiadau gyda'r nod o wella atal, amddiffyn a chefnogaeth i'r rhai yr effeithir arnynt; gan gynnwys trwy gysoni gwasanaethau a thrwy arweinyddiaeth a chydweithio gwell.

Buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a chynrychiolwyr y sector i asesu'r hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â VAWDASV, yr hyn sy'n gweithio ar hyn o bryd, a lle y dylid canolbwyntio ar wella gwasanaethau ymhellach.



## Mae lloches ddiogel yn bwysig

Mae darparu lloches yn chwarae rhan fawr wrth fynd i'r afael â VAWDASV a dylai barhau i fod yn ymyrraeth â blaenoriaeth.

Mae llochesau yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau. Yn ogystal â thai brys byrdymor, gallant gynnig gwasanaethau gan gynnwys cymorth unigol ac amrywiaeth o gyngor cyfreithiol a thechnegol. Bydd llawer hefyd yn cynnig cymorth i sicrhau llety 'symud ymlaen'.

Mae defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid yn ystyried darpariaeth lloches yn rhan hanfodol o fynd i'r afael â VAWDASV ac, er ei bod yn anodd gwerthuso eu heffeithiolrwydd yn gadarn, mae'n amlwg eu bod yn chwarae rhan bwysig i'r rhai sy'n ceisio dianc rhag camdriniaeth. Mae'r galw am lochesau wedi rhagori ar y cyflenwad, sy'n awgrymu y gallai capasiti fod yn broblem. Efallai bod hyn wedi gwaethygu gyda phandemig y Coronafeirws.

Ar yr un pryd, dylid cydnabod bod llochesau yn ymyrraeth eithafol, gan ei gwneud yn ofynnol i fenywod adael eu cartrefi a'u bywydau, ac mae rhai grwpiau o bobl yn llai tebygol o ymgysylltu â nhw.

## Y gymysgedd iawn o ymyriadau

Mae eiriolaeth annibynnol, gan gynnwys IDVA (ymgynghorwyr trais domestig annibynnol) yn fwyfwy cyffredin. Mae'r rhaglenni hyn yn darparu unigolion hyfforddedig sy'n gweithredu fel y prif

gyswllt ar gyfer goroeswyr ac yn gallu llywio'r gwasanaethau a'r rhanddeiliaid amrywiol sy'n ymwneud â'r gwaith hwn. Mae tystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth gan randdeiliaid, yn awgrymu bod y rhain yn werthfawr.

Mae ymyriadau troseddwyr, sy'n ceisio atal cam-drin trwy weithio gyda'r rhai sy'n ei gyflawni, wedi'u profi'n helaeth ac maen nhw'n addawol. Mae'r rhain yn eu dyddiau cynnar yng Nghymru, a gallai darparu adnoddau i'r ymyriadau hyn helpu i leihau cyfraddau cam-drin.

> **Mae comisiynu yn aml yn dal i gael ei wneud ar fodel pris isaf, er gwaethaf y canllawiau, ond mae rhai sefydliadau'n teimlo bod diogelwch goroeswyr yn cael ei fygwth gan y prisiau a gynigir ar gyfer rhai gwasanaethau.**

Roedd rhanddeiliaid yn glir nad oes yna 'fwled hud' ac y bydd angen cymysgedd o ymyriadau gwahanol ar unrhyw un adeg. Yn benodol, dylid cymryd gofal i sicrhau bod pob grŵp y mae VAWDASV yn effeithio arno yn cael cefnogaeth briodol, gan gynnwys plant a theuluoedd.

## Effaith y ddeddfwriaeth

Mae ymwybyddiaeth o VAWDASV wedi cynyddu ac mae cyrff rhanbarthol wedi cael rhai llwyddiannau wrth ddod â darparwyr gwasanaeth, comisiynwyr a rhanddeiliaid eraill ynghyd.

Mae gwaith rhanbarthol a phartneriaeth wedi cynyddu yn gyffredinol, ond mae cydweithredu ac 'ymrwymiad' gan arweinwyr ar draws y sector cyhoeddus yn dal yn dameidiog. Mae cyhoeddiad diweddar y Dangosyddion Cenedlaethol yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol.

Mae angen cryfhau gweithio a chydweithio rhanbarthol os yw nodau'r ddeddfwriaeth i gael eu cyflawni.

Byddai mwy o oruchwyliaeth a chefnogaeth genedlaethol yn helpu i ledaenu arfer da, a gallai ganolbwyntio ffocws ar feysydd lle mae angen cryfhau cydweithrediad. Teimlai rhanddeiliaid y gallai'r Ymgynghorwyr Cenedlaethol chwarae rhan gryfach a mwy rhagweithiol yn hyn.

## Cysoni comisiynu

Mae'r sector wedi croesawu canllawiau ar gomisiynu. Nod hyn yw sicrhau mwy o gysondeb wrth nodi angen a sicrhau darpariaeth ddigonol i ymateb i'r angen hwnnw. Ar lawr gwlad, fodd bynnag, mae'r system gomisiynu'n dameidiog iawn o hyd ac mae'r canllawiau'n cael eu gweithredu'n wahanol ar draws y rhanbarthau.

Mae diffyg safonau traws-ranbarthol cyson yn cynyddu'r gost i sefydliadau ymgeisio i ddarparu gwasanaethau, yn ogystal ag achosi aneffeithlonrwydd posibl yn y ddarpariaeth. Mae gwahaniaethau mewn gofynion casglu data, ac mewn safonau data, hefyd yn cynyddu cost yn ogystal â'i gwneud hi'n anodd cymharu ystadegau ar draws rhanbarthau.

Mae comisiynu yn aml yn dal i gael ei wneud ar fodel pris isaf, er gwaethaf y canllawiau, ond mae rhai sefydliadau'n teimlo bod diogelwch goroeswyr yn cael ei fygwth gan y prisiau a gynigir ar gyfer rhai gwasanaethau. Nid yw rhai contractau'n fasnachol ymarferol i lawer o ddarparwyr.

Gallai gweithio rhanbarthol gwell a rôl gryfach i Ymgynghorwyr Cenedlaethol helpu i wella arferion comisiynu a chysoni safonau.

## Adnoddau'r sector

Mae cyllid yn gymhleth ac yn anodd ei ddatrys. Yn flaenorol, mae darparwyr a rhanddeiliaid (gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru) wedi'i chael hi'n anodd mapio gwahanol ffynonellau cyllid, er y bu cynnydd diweddar yn hyn o beth.

Mae'r model cyllido cyfredol yn rhedeg i raddau helaeth o flwyddyn i flwyddyn, ac nid yw hyn yn caniatáu cynllunio na sicrwydd hirdymor, gydag effeithiau dilynol ar wasanaethau. Er bod hyn yn adlewyrchu'r dirwedd gwasanaeth cyhoeddus ehangach, gallai rhywfaint o signalau neu arwyddion o lefelau cyllido yn y dyfodol ganiatáu dull aml-flwyddyn. Byddai hyn o fudd arbennig I lochesau, sy'n ymddangos i fod yn dioddef yn sgil cyllido o flwyddyn i flwyddyn.

Mae potiau cyllido yn aml yn dod ag amodau penodol neu mae'n ofynnol eu defnyddio ar gyfer ymyriadau penodol, nad ydynt o bosibl yn bodloni anghenion ardaloedd lleol ac a allai ddyblygu adnoddau presennol. Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau arloesol yn aml ar sail treial byrdymor, sy'n ei gwneud hi'n anodd parhau â rhaglenni llwyddiannus.

Er na ofynnwyd i ni asesu a yw lefelau cyllid yn ddigonol - ac nid ydym wedi ceisio gwneud hyn - mae yna arwyddion fod y sector yn dioddef o ddiffyg adnoddau. Mae'r galw yn parhau i fod yn fwy na'r cyflenwad ar gyfer darpariaeth lloches, ac mae'n ymddangos bod cyllid wedi'i dorri mewn termau real ers 2011/12. Yn ogystal, mae mwy o bobl bellach yn rhoi gwybod am gam-drin domestig i'r heddlu, sy'n awgrymu bod galw pellach am ymgysylltu â gwasanaethau. Efallai y bydd cyllid ychwanegol ers y pandemig yn mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, ond bydd angen iddo barhau yn y tymor hwy i gael effaith barhaol.

## Rhagor o wybodaeth

I weld yr adroddiad llawn gweler Price, J, Quarmby, S, Johnson, C a Bristow, D. (2020). **Ymyriadau ym maes cam-drin domestig yng Nghymru.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y Gwasanaeth Sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith yr Hyn sy'n Gweithio y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Dr Craig Johnson**

+44 (0)29 2087 5345

craig.johnson@wcpp.org.uk

**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG

www.wcpp.org.uk/cy

029 2087 5345

info@wcpp.org.uk

@WCfPP

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru / Welsh Government